

# DYDDIADUR DYN DWAD

## 1. O'R BLACK BOY I'R NEW ELY

Dim ond ers rhyw fis neu ddau buesh i yma ac ella nad oes gin i ddim hawl i alw'n hun yn *ddinesydd* go iawn 'fath â rhai ohonoch chi sydd yma ers cantoedd. Deud y gwir wrthach chi, mae'n gwestiwn gin i arhosa'i'n ddigon hir i fod yn ddyd dinas go iawn chwaith. Isho denig o 'ma bob gafael rwsut.

O'n i'n gweithio ers gadish i'r ysgol yn Bernard Wardle yn Gaernarfon nes ath petha'n fain arny'n nhw fel pawb arall llynadd a gesh i sac, do. Nesh i laru ar stelcian o gwmpas y pybs a'r caffis yn dre drw'r dydd a nath hogia dól roid y cynnig 'ma i fi. Mi ellwch chi fynd i rmla yn y wlad 'ma i chwilio am waith a mi dalan nhw'ch costa teithio chi a'ch helpu chi'n o lew dan rhyw sgîm arall i setlo lawr yn fannu wedyn. Too good to miss o'n i'n meddwl, ia?

Nesh i benderfynu dwad i Gaerdydd am bod fi wedi bod unwaith o'r blaen a cael uffwr o hwyl. Bys o hogia gwaith yn dwad lawr i weld Wêls yn chwarae rygbi. Dodd gin i ddim ticed a chesh i 'run yn diwadd, ond odd 'na ddigon o lych drwy dydd a noson grêt yn *New Ely*, pyb mawr ddim yn bell o ganol dre. Dwi ddim yn licio rygbi, ddim llawer eniwe, ond rodd o'n jans am hwyl i'r hogia. O'n i'n dallt bod 'na lot o hogia ffor' cw lawr yma'n gweithio ac yn gwobod felly na faswn i ddim yn styc am fêts.

Ar tren doish i lawr a drud ar diawl oedd o hefyd, ond dodd dim ots gin i am mai nhw oedd yn talu. Gesh i job uffernol yn Crewe — steshion fawr — isho newid a ffeindio rhyw blatfform 4B. O'n i'n meddwl na faswn i ddim yn gneud hi mewn pryd. Mae 'na far ar lot o drens ond dodd 'na ddim byd ar y slow-coach yma ar ôl i mi redag a magu sychad.

Dwi'n difaru lot na faswn i wedi dysgu trêd pan adawish i'r ysgol, mynd i'r tech yn Bangor a ballu am ddiwrnod bob wsnos fel lot o'r hogia ond 'na fo. Gesh i job heb lawar o drafferth yn Howells, yn y lle carpedi. Siwt a thei a ballu, ia, rhaid i chi edrych yn smart. Dipyn bach yn boring ond dwi'n dal arni'n o lew de. Ond fannu gesh i'n siomi gynta yn Gaerdydd hefyd.

Ddoth 'na ddyd a'i wraig i mewn yn ystod yr wythnosa cynta ro'n i'n gweithio 'no, yn siarad Cymraeg Sowth. Dwi'n dechra dallt nhw'n o lew rwan ac mi nesh i ofyn i'r boi yn Gymraeg fedrwn i helpu fo. Iesu, dodd o ddim yn licio yntôl ac rodd o'n fwy

cartrefol o'r hannar pan ddoth y bos heibio iddo fo gal siarad Susnag. Dodd o ddim yn swnio'n bad o foi, ddim hannar mor bwysig ag odd o'n swnio'n iaith y Sais. Dwi'n meddwl ella bod fi wedi weld o ar telifishyn.

Methu dallt. Fydda'i'n falch bob amser clywad rhywun yn siarad Cymraeg. Dwi ddim yn Blaid Cymru ofnadwy, ond mae pawb jest yn dipyn o Blaid Cymru bellach yn Sir Gaernarfon, ac mae clywad Cymraeg yn fan hyn yn gneud i rywun deimlo'n well gyda'r nos. Dyna pam esh i chwilio am y *New Ely* lle buesh i o'r blaen. Dwi'n byw yn Roath ac erbyn gweld, doedd y lle ddim yn bell i ffwrdd.

Ond arglwydd, dyna chi wahaniaeth yn y lle ers pan welish i o ddwtha. Llawn dop tro hwnnw, môr o ganu, lloria'n socian a mwg sigarets yn nadu chi weld pen draw'r stafall. Rodd hi jest yn wag tro 'ma, hefo tua hannar dwshin o hogia ac un hogan yn chwarae cardia am bres ddim yn bell o'r bar, dau ddyd du mewn congol dywyll a thair modan isho'u pigo i fyny yn yfad haneri draw wrth y ffenast. Godish i beint o meild a phwyso ar y bar, meddwl baswn i'n nabod rhywun fasa'n dwad i mewn.

Ddoth neb. Ar ol yfad tri, do'n i'n dal i nabod neb o'r bobol ddoth i mewn er eu bod nhw i gyd jest yn siarad Cymraeg, ac ro'n i'n teimlo reit ffed-yp.

"Os 'na jans am gem, hogia?" medda fi wrth yr hogia cardia. Dwi ddim yn dda iawn am chwarae brag, ond rwbath i joinio criw de. Mi gollish ryw dipyn wrth chwarae nes ar ddiwadd y noson, iesu gwyn! gesh i beil o siesus. Mi arhosodd un boi efo fi ond mi roish i'r cwbl oedd gin i yn y pwl, ddim isho mynd â'i bres o i gyd noson gynta de. "Tri chwech", medda fi, achos yn Gymraeg oeddann ni'n chwarae, ac ro'n i'n gwobod mod i wedi ennill. "Sori, mêd. Tair brenhines," medda fynta gan fachu'r pres.

Son am deimlo'n giarni. Roeddann nhw yno noson

wedyn hefyd, ond roedd colli wythpunt noson cynt yn ddiagon i fi. Eniwe, naethon nhw ddim gofyn. Methu ffitio i mewn yn fanna. Mae 'na griw arall o deips F.W.A. sy'n canu petha fel *Tramp, tramp, tramp the boys are marching* bob weekend jest. Hogia calad, siarad lot o Susnag a'u rhegi a'u chwerthin nhw'n bowndian o wal i wal. Hen hogia iawn ond anodd nabod nhw. Hollol wahanol i hogia ni, ond ddim gyn waethad â stiwdants. Mae rheini'n dwad i'r Ely yn un criwia mawr ac yn eistedd mewn cylch a chadw pawb arall allan. Rêl clics.

Faswn i ddim yn meindio chwarae ffwtbol hefo'r tim Cymric 'na sydd hefo postar ar y bôrd wrth y drws. Mi fyddan yn dwad mewn bob nos Ferchar ar ôl treinio. Berig bod hwnnw'n dipyn o glic hefyd. Tichyrs a hogia clyfar. Cymraeg hyn a Cymraeg llall fydda'i'n glywad gynyn nhw, ddim ffwtbol. Lle ma hogia ffor' cw na fasan nhw'n dwad i byb Cymraeg dwi isio wbod?

Dyna pam ro'n i mor falch o weld John Pen Rwd noson o'r blaen. Tichyr ydy John, a fydd o bob amsar yn dwad draw i weld yr hogia yn y Black pan fydd o'n dre ar ei holidos o Gaerdydd. "John Pen Rwd y diawl, sumae?" medda fi'n uchel ar draws y stafall pan ddoth o mewn i'r Ely hefo rhyw fodan handi ar ei fraich, ond nath o ddim hannar cymaint o ffys ohona'i a fydd o'n neud pan fydd o'n cicio'i sodla ar ben ei hun yn ystod ei holidos haf. Gweld dim bai arno fo chwaith, deud gwir, hefo peth handi felna i sbio arni. Ond hi ddoth ata'i ddiwadd y noson a gofyn i fi

stopio galw John yn 'Ben Rwd' achos bod neb arall yn galw fo'n hynny rwan, yn Gaerdydd. Dipyn o falu cach tasa chi'n gofyn i fi. John Pen Rwd fydd o i fi am byth.

Yr hogan sy'n gneud *Y Dinesydd* 'ma ddoth ata'i noson o'r blaen yn gofyn os o'n i isio copi. "Dim diolch," medda fi'n meddwl bod o'n costio. "Am ddim," medda hitha. Mi ddarllenish i o drwadd, dim byd gwell i neud uwchben 'y mheint, a methu coelio mod i'n byw yn yr un Gaerdydd a'r bobl odd yn sgwennu. Ar ôl cael dipyn o el mi ddeudish i wrthi hi hefyd. "Does 'na ddim gair am

New Ely a llefydd dwi'n mynd iddynt nhw yn fan hyn," medda fi, a fanna cesh i'n nal, de. "Iawn, sgwenna di amdany'n nhw ta," medda hi. "Sut ti'n disgwyl i fi sgwennu i bapur newydd?" medda fi. "Gesh i 'mond tri C.S.E. a mae 'na ddigon o hogia clyfrach na fi yn fan hyn heno i neud." Ond mae'n debyg fod yr hogia clyfar yn gwrthod gneud, neu'n gaddo gneud a gneud dim yn diwadd. Duw, rodd hi'n cwyno ac o'n i wedi cael dipyn go lew o el ac yn hawdd i berswadio. Roedd hi'n gleniach na fuo neb arall hefo fi ers pan ddoth i lawr a nath hi addo'n helpu fi hefo sbelio a teitls a ballu.

"Be ddeuda i?" medda fi. "Jest sonia am lle bynnag ti'n mynd a beth bynnag ti'n neud yn Gaerdydd," medda hi.

"Fath â cadw diary ia?"

"Dyna chdi."

Uffernol o boring faswn i'n feddwl, ond ei lwc owt hi ydy hynny.

GORONWY JONES

UNDEB CENEDLAETHOL  
ATHRAWON CYMRU  
Sefydlad rhydd ac  
annibynnol ddeugain mlynedd  
ar y blaen i Ddatganoli

Onid yw'ch ymresymu cenedlaethol yn gwbl glir sythwch y dryswch yn awr trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen isod.

Tanysgriafid Aelodaeth am 1976 £10.00

Athrawon ar eu blwyddyn gyntaf o wasanaeth £5.00

At: Yr Ysgrifennydd Gweinyddol, UCAG,  
11 Heol Gordon, Caerdydd, CF2 3AJ, (Tel: 24692).

Amgaeaf sic/archeb post, gwerth £....., tanysgriafid am 1976.

Enw .....

Cyfeiriad preifat .....

Cyfeiriad Ysgol/Coleg .....

Cyflogwr: .....

# DYDDIADUR DYN DWAD

## 2. Y CO'N Y CONWAY

Dwi ddim yn deud de, 'New Ely' ydi'n local i a dydi o ddim yn bad o le, ond mae newid yn change yndi? Felly un nos Wener esh i chwilio am byb Cymraeg arall o'n i wedi clywad son amdano fo ochor arall i'r dre.

Dwi wedi clywad lot o bobol yn cwyno am bysus Caerdydd, bod nhw'n hwyr a ballu de, ond iesu oedd bys No 7 yn mynd â fi yn handi uffernol o drws tŷ jest i ddrws ffrynt y pyb 'ma, y 'Conway' yn Llandaff. Mae'r bys yn stopio deud gwir tu allan i stiwdios HTV. Od meddwl yndi 'ma fanna chydig o ffordd lawr lôn ma nhw'n gneud y programes sydd ar ych TV chi? Dwi'n meddwl nesh i weld y boi sbectol 'na sydd ar 'Y Dydd' nos Wener, ond ella 'na drysu nesh i hefyd.

Mae'r 'Conway' 'n fwy posh na'r 'New Ely' medda'r hogia, felly wisgish i'n siwt a nhei i fynd lawr yna rhag i fi edrach yn sgruffy. Esh i am saith i gael noson fawr i ddechra'r weekend yn iawn 'de, a mynd i fewn i'r bar ar y chwith lle deudodd yn mêts i wrtha i am fynd, ond arglwydd odd hi'n wag, a dim un wan jac yno. Meddwl wedyn, naturiol, bod fi'n lle rong.

"This the Welsh bar aye?" medda fi wrth y fodan tu nôl i'r bar.

"They seem to speak a lot of Welsh here," medda fodan. Swnio fatha lanc i fi a ofynish i iddi.

"You from America aye?" me fi.

"Canada," medda hitha. Yn bar Cymraeg yn Caerdydd Dwi'n gofyn i chi. Byd yn fach, yndi?

"Peint o meild plis."

"Mild?"

"Peint o meild plis," me fi eto, meddwl bod hi ddim 'di dallt. Lot o bobol ddim yn dallt yn Susnag i yn fan hyn. Chesh i rioed draffath yn Cynarfion chwaith. Ond odd y fodan ddim yn gwobod be odd

meild nag odd?

"Black beer," me fi.

"Brown?" medda hi.

"No, Meild."

Nath hi ofyn i'r hogia yn y bar arall.

"It's 'derk' you want skip," medda boi o trwadd.

"Meild aye?" medda fi eto'n ychall.

"No, it's 'derk' round here, sperk."

O Iesu, neith hi beint o lager. Twenti êt, myn uffar i! Talu am carpad ia?

Dwi wedi dallt wedyn, do, ma'r 'Brains Dark' yma odd gynnyn nhw. Stwff drwg ar diawl, dim byd debyg i 'M & B' a 'Ind Coope'. Ond ddim gyn waethed â'r S.A. 'na. 'Skull Attack' fydd yr hogia'n i alw fo. Blas fatha wermod ar hwnnw.

Einiwê, dyma fi'n gofyn i'r Canedian lle roedd yr hogia i gyd heno — meddwl fysa nhw yma a hitha'n weekend. Byth yn dechra llenwi cyn naw medda hi. Ella 'na dyna pam bod yr ôl mor ddrud. Codi lot am bod nhw'n gwerthu gyn lleiad?

Ond tua wyth o'r gloch ddoth 'na filoedd o blant i fewn yn gneud sw'n diawledig. Mi godon nhw orinj jiwesus a haneri o lager an leim a ryw 'nialwch felly a chymryd y seti jest i gyd.

"Basdads bach Rhyfelen yn siarad Susnag," medda'r boi 'ma efo gwallt hir a locsun wrth yn ochor i wrth y bar.

"Y?" medda fi, heb dorri gair hefo'r boi cynt. "Ydi rhein yn medru Cymraeg, yndyn?"

"Ysgol Rhydfelen Pontypridd 'de was? Ysgol Gymraeg 'de? Ti ddim yn gwobod? Lle uffar ti 'di bod i mêt?"

"Sud ddiawl ti'n disgwyl i fi whod am blydi Pontypridd? Newydd ddwad lawr 'ma ydw i yli."

Odd gin i ddim llawar i ddeud wrth y boi bliin 'ma, ac o'n i wedi blino sefyll eniwê, felly mi esh i chwilio am gadar.

"Os 'na rwbath yn ista fan hyn, del?"

Mi sbiodd y fodan fach yn wirion.

"Anybody's chair?"

"No."

"Dach chi'n siarad Cymraig yndach?"

"Odyn."

"Ysgol Rhydfelen ia?"

"Ie."

"Pam dach chi'n siarad Susnag efo'ch gilydd 'da?" Naethon nhw giglo a coch.

"Y?" me fi, isho atab yn lle lol.

"Wel," medda un o'r diwadd, "ni'n siarad Cymraeg yn yr ysgol drwy'r dydd ond 'dyn ni? Mae'n change cael siarad Saesneg gyda'r nos."

Mi orffennodd y sgwrs yn swta fela pan ddath 'na wr a gwraig heibio'n halio uffar o bwl mawr hyl ar eu holau. Mi stopiodd y dyn yn stond o mlaen i.

"Hey! You Bobby Pierce?" medda'r boi wrtha i.

Sbio dros yn ysgwydd i weld odd na rywun arall yno, ond dodd 'na ddim. Ron i 'run ffunud â Bobby Pierce sy'n cadw garej yn Gabalfa medda fo.

"Mildred? I could 'ave sworn.....eh?"

Tua naw, fel deudodd y fodan, dyma hi'n dechra llenwi tu hwnt i bob rheswm. Hogia smart, a fodins handi yn yfad petha bach ac yn siarad yn sidet ar ganol llawr. Rhydfelan yn dal i hawlio'r seti.

"Rydw i'n dysgu siarad..." medda rwbath yn fy nghlust chwith.

"Ym be?" me fi, ddim wedi ddallt o'n iawn.

"Ydych chi'n siarad Cymraeg?"

"Yndw, siwr Dduw." me

fi. "Lle dach chi'n dwad?"

"Mae'n ddrwg gen i?"

"Un o fforew dach chi?"

"Rydw i'n dysgu ers dwy wythnos dim ond."

"Fan hyn ti'n arfar yfad ta fyddi di'n mynd i'r Ely weithia?"

"Eto os gwelwch yn dda?"

A felna buodd hi. Ddoth 'na foi hefo pen moel a homar o locsun heibio a deud wrth y boi bod hi'n iawn iddo fo aros i siarad hefo fi. Gneud lles iddo fo siarad hefo 'Cymro naturiol'. Yr unig beth odd, fyswn inna ddim wedi meindio siarad efo hogia naturiol yn hun yn lle paldaruo efo ryw dw-lal fel hyn. Dwi o blaid yr hogia 'ma ddysgu Cymraeg ia, ond 'ma powb isho dipyn bach o hwyl dros weekend does?

"Ble rydych chi'n dysgu?" medda rwbath arall gan yn nal i a finna jest â chal gwarad o'r llall.

"Dwi ddim yn dysgu. Dwi wedi siarad Cymraeg 'rioed do," medda fi.

"Na, na, na. Ble rydych chi'n athro?"

"Gwerthu carpedi yn Howells ydw i, mêt."

Dwi ddim yn meddwl gesh i 'rioed noson fwy diflas. Neb o gwbl yno fysa chi'n alw'n 'hogia'. Esh i allan i'r awyr iach o'r rwm heb ffenast a dal y bys ddeg yn ôl i'r 'New Ely' i gael peint neu ddau cyn iddyn nhw gau. Roedd yr hogia wrthi'n canu a chwarae cardia a gesh i groeso iawn a gêm neu ddwy cyn iddyn nhw gau.

"Lle ti 'di bod?"


"Yn y 'Conway'," medda fi.

"Hei hogia! Ma Gron wedi bod yn y 'Conway'!"

"Aaaaa! Gest ti hwy! Gron? Nest ti enjoio dy hun hefo'r crach?"

Jest cyn i mi adael y 'Conway' mi ddaeth y dyn hefo'r pwl du heibio eiwaith a gofyn, "Hey skip! You sure you're not Bobby Pierce?"

GORONWY JONES



# DYDDIADUR DYN DWAD

## 3. CHATEAU NEUF DE PAPE (GEOS)

Y peth sy'n handi am Gaerdydd ydi bod chi'n medru mynd am fwy o el wedi i'r pybs gau heb draffath o gwbl. Yn Gynarfon odd ginoch chi ddewis — Clyb Cash ne'r Chinks. Rwan mae nhw wedi cau Cash a mae 'na ffeith yn y Chinks bob yn ail nos Sadwrn. Dyna ichi reswm arall pam bod boi ifanc fatha fi s'isho dipyn o leiff yn well-off yn fan hyn, am dipyn eniwe.

Ran amla bydd hogia'r Ely yn mynd i un o ddau le — Casinos sydd yn y docs ne Papajios yn ganol dre. Mae Casinos yn dywyll ar diawl, yn fudur a swllyd a mae rhaid ichi gael taxi i fynd lawr yna. Os bysw'n i'n cal rise, fysw'n i'n prynu car bach. Ond ma 'na el yn y Casinos am ddim yn bad o brisia. Gwin a petha bach gewch chi yn Papajios.

"Peint o lager plis," medda fi tro cynta 'rioed es i yno. Does 'na byth feild mewn unrhyw glwb, dwi 'di ffeindio. Dydi o ddim yn costio digon, a nhwtha isho'ch sginio chi de?

"You can have wine or a short," medda fodan yn gwta. "Bottle of wine ta," me fi. Rhatach na fesul glas.

"What kind?"

"Any kind," medda fi, dallt dim amdany'n nhw.

"Red?"

"Yes."

"£2 please." "I only want one," medda fi, ond odd y blydi thing yn ddwy sgrin am botal! Gneud chi drw'ch trwyn ia, ond dwi'n gwobod bod fi wedi gweld poteli 'run fath yn Tesco rownd ganol am lai na punt.

Sbio drw'r twllwch a'r mwg sigarets i weld o'n i'n nabod rywun. Welish i Sabrina 'Pobl y Cwm' yn dawnsio hefo rywun. Fysun i ddim wedi meindio autograph i ddangos iddyn nhw adra mod i'n cwarfod y big nobs ar y scene Caerdydd 'ma, ond o'n i ofn mynd ati hi. Welish i Wayne Harris yno hefyd ond ddim dyna pwy ydi o go iawn achos mae o'n canu yn Edward H. Davies hefyd.

Odd 'na neb o hogia'r Ely, cachwrs, yn fodlon dwad efo fi achos na nos Iau odd hi. O'n i wedi bod yn cario homar o blydi Axminsters trwm o'r stores i fyny i'r showroom yn Howells drwy'r dydd ac ro'n i'n bwriadu ffonio Mr Huxley'r boss yn bora eniwe i ddeud bod y 'nghefn i'n giarni. Felly lawr a'r el.

"Martha Morris con!"

"Ydw i'n ych 'nabod chi?"

"Jesu! Co' fatha gogor ia?"

"Gron bach! O'n i ddim yn nabod chdi hefo'r mwstach coch 'na."

"Ti'n licio fo? Trendi ia?" Odd Martha run clas â fi'n rysgol Sul Moreia. Glywsoch chi am y tân 'na dwnod o'r blaen? Odd hi'n yr 'A' yn'r Ysgol a finna dipyn bach is, ia?

"Lle ti'n cadw Gron? Odd dy fam yn deud wrth mam bod chdi lawr yma."

"Dwi'n byw'n Roath yndw, a fydda i'n mynd i'r New Ely jest bob nos. Byth yn gweld chdi yno chwaith."

"Ti'n licio yno? Dipyn bach o ddymy yndi?" medda hi, a chodi'i thrwyn. A dyma fi'n sbio arni hi yn 'i ffrog floda hir a'i gwallt jest so a'i lot o fêc-up a llygada lliw du a meddwl ella na fysa hi ddim yn ffitio i fewn yn yr Ely chwaith.

"Ysgol Sul a Band o' Hope wedi dy droi di'n erbyn lysh ia?" medda fi, smalio bach.

"O na. Fyddan ni'n mynd am ddrink bach ryw noson ne ddwy yr wythnos. Conway. Ti wedi bod yna?"

"Do unwaith," medda fi, ond nesh i ddim cymryd arna noson mor uffernol o boring gesh i yno.

Ddoth 'na Luned a Gwenan a Sian heibio. Tichyrs bob wan, yn byw hefo Martha yn Llandaff. Ond o'n i ddim yn ffansio dim un ohonyn nhw.

"Ma' Gron yn dod o Gaer-narfon," medda Martha wrthyn nhw.

"O ie. Ble rych chi'n dysgu?" medda Luned.

"Ddim tichyr ydw i." Pam bod nhw i gyd yn meddwl mod i'n dichyr?

"O!" medda Gwenan, "ble chi'n ymuno yn y bywyd Cwmrag?"

"Paid â phoeni, del. Dwi wedi ffeindio'r hogia," medda fi.

"Mae o'n chwarae cardia yn y dafarn bob nos," medda Martha, a mi chwethon nhw a twt twtlan.

"Be dach chi'n neud 'da?" medda fi, dipyn bach yn embarasd.

"Wel," medda Gwenan, jest â marw isho rywun ofyn iddi hi, dwi'n meddwl, "ni'n yn côr. Côr yr Aelwyd a Chôr

Godre'r Garth, beiti dwy nei dair noson yr wthnos. Ich chi'n canu? Na? A mae dos-barth nos i ddysgwyr 'da dwy ohono ni. A ni'n itha diwid yn yr Aelwid, ond yn ni ferched? A mae Sian yn Ysgrifenyddes y Gangen Leol o'r Blaidd, ond witi Siân?"

Ddeudodd Siân ddim byd, dim ond gwenu a gwasgu'i handbag yn nyrfys. Odd dim isho iddi fod yn nyrfys, 'cos beth amdana fi yn gorod gwranddo ar gang o fodins clyfar fel hyn yn deud wrtha i sut oeddan nhw'n cadw Cymraig yn fyw yn Gaerdydd. Neud i fi deimlo'n giarni uffernol, bod gin i ddim talent i neud dim byd. Ar wahan i chwara gem ddim yn bad o ddarts ne rownd o snooker go lew 'de.

"Jesu, genod," me' fi, "o'n i'n meddwl mod i'n gneud yn o lew ffeindio gang o hogia Cymraig i gael hwyl hefo nhw fel byswn i adra yn dre. Dwi ddim digon da i'ch llefydd chi eniwe."

"Dere nawr Gronw," medda Luned. Gronw? Be' 'di hwnnw? "Mae'r Urdd yn agored i bawb w!"

Urdd, myn uffar i! Fush i 'rioed yn perthyn i'r Urdd. Do'n i ddim am ddeud dim achos bod fi'n gwobod bod

Martha wedi bod yn aelod ers pan odd hi'n ddim o beth. Ond odd hi'n byw yn St David's Road hefo'r bobol fawr. A dyna chi pwy odd hogia'r Urdd yn Gynarfon. Plant blaenoriaid a tichyrs a ballu. Dawnsio gwerin a rhyw falu cachu felly. Sisis. Fedrwh chi weld hogia Sgubs yn gneud ryw rigmarol fela? Dwi'n cofio Miss Parry Welsh yn rhoid rhyw gomies Cymraig i'r clas.

"Dim ond i blant yr Urdd," medda hi, a John Bach Nain a finna'n tynnu stumia ar ein gilydd. A dwi'n cofio llond bys ohonyn nhw'n mynd o'r Maes i'r camp yn Llangadog ac yn canu caneuon stiwpid wrth fynd. Lawr ar lan y môr, ia? Ond do'n i ddim isho ypetio'r genod, a ddeudish i ddim byd.

Ofy'nish i Martha be odd hi'n neud nos Sadwrn, ond odd hi'n mynd i barti caws a gwin yn Rhiwbeina. A'r wythnos wedyn? Prysor iawn, rhywbeth ymlaen bob nos.

"Sud wyt ti'n medru sbario awr i ddwad i fan hyn?" medda fi wrthi'n sbetlyd.

"Noson dda nos Iau yma. Criw da o'r BBC yn dwad yma."

Ac ro'n i'n gwobod mae yn fannu rodd Martha Morris yn chwilio am fachiad ac nid yn

ganol hogia dre.

Yn sydyn, dyma 'na lasiad o'r piso coch yn mynd lawr ffordd rong a dyma fi'n tagu arno fo, ac i lawr ar y mat a fo, hannar drwy nhrwyn i a hannar drwy ngheg i. Mi heglodd y genod rhag i ffrogia llaes nhw chael hi. Jest as well, ond ddeuthon nhw ddim yn ôl chwaith pan ddoth 'na horwth o blydi bownsar mawr heibio a gafal yn 'y ngwar i.

"Out!"

"Uffar o berig, mêt," medda fi'n Susneg. "Newydd gyrradd ydw i ar ôl talu chweig i ddwad i mewn a talu dwy sgrin am y gwin sur uffernol 'ma." Ond rodd o'n benderfynol, ac achos bod fi'n benderfynol hefyd, ath petha'n flêr do? Cyn ichi ddeud Jack Robinson o'n i allan ar 'y nhin ar y pafin hefo'r uffar mawr yn 'y nghicio fi drosta. Ro'n i'n gleisia byw.

A finna'n dal i riddfan ar lawr, mi ddoth 'na ddau foi allan o'r Papajios. Y manijer a Gareth Connolly o'r Ely. Do'n i ddim yn gwobod bod o yno. Roddan nhw'n ffræeo,

"...and call your animal off. I'm in the CID and I could get this place shut down tomorrow if I wanted to."

Mi droiodd y manijer yn neis i gyd, ac mi helpodd fi i fyny a gneud moshiwns llau'r llwch off 'y nghot i. Rownd y gongol rodd y clyb 'ma, *The Revolution*, lle laddodd ryw fochyn o fownsar un o hogia Caerdydd ryw fis yn ôl. Mae 'na enw newydd ar y lle rwan — *Smileys*.

Mi gerddodd Connolly a fi adra drw'r dre gan rannu'r botal win ddoth o allan hefo fo.

GORONWY JONES

The image shows a collection of comic book covers from 'Y Lolfa'. The top cover is 'Bwyd i Bawb' by Rhian Williams, priced at 85c. Below it is 'Drylliog Holl Gadwynau' priced at £1.25. The bottom cover is 'Gwarthus! Tren y Chwylaro' priced at 30c. At the very bottom is 'Y Lolfa' priced at 75c. The covers feature various illustrations and text, including the name 'Rhian Williams' and 'Drylliog Holl Gadwynau'.

# DYDDIADUR DYN DWAD

## 4. STEDDFODWYR PUB(YR)

"Wyt ti ddim yn meddwl bod hi dipyn bach yn hwyr i ddechra son am y Steddfod rwan?", medda fi wrth yr hogan sy'n gneud y papur 'ma, "a hitha'n dymor conkers?"

"Ma' nhw'n son am y Steddfod yn 'Y Faner' nes bod hi'n dymor celyn," medda hitha. On i ddim yn gwobod beth odd 'Y Faner' nes deudodd hi ma run fath â'r 'Cymro' odd o, ond heb lynia. Ond ma rhiwun yn dysgu rwbath bob dydd dydi? A fela gesh i hawl i sgwenu hwn am Steddfod Aberteifi er mod i beth uffernol yn hwyr.

Gesh i bythefnos o holides haf gin Howells a iesu odd hi'n braf cal sticio mhen allan drw ffenast y tren tua Rhyl 'na ar y ffor i fynu i Gnarfion, a cal gwarad o oglea mothbols storws carpedi'r blydi gwaith 'na allan o'n ffroena. Ma gynon ni hen fastard o fforman sydd ar ych cefn chi drw'r dydd, ac ar ôl iddo fo ddeud yn sbeitlyd "Jones, you're a waste of space" wrtha'i pan wnesh i fôls ohoni a gyrru'r carpad peil rong i dŷ rhyw swanes yn Rhiwbeina, brafiach byth odd cal denig.

Peth cynta gesh i pan esh i mewn i 'Black Boy' nos Wener honno, cyn na "Croeso adra co'" na "Be ti'n yfad con?" odd "Wt ti'n dwad lawr i Steddfod efo'r hogia fory Gron Bach?" Cyn i fi gal yng ngwynt ata jest, na peint o M & B i lawr y nghorn gwddw na deud helo wrth yr hen fodan, roedd pump ohonan ni wedi stwffio tent a sleeping bags i fwt Austin 7 Sam Ceir Abar a bomio dros Pas Llanbêr am y Sowth eto. Tua unarddeg, stopion ni am beint cynta'r diwrnod yn Dolgella. Cymaint o draffig yn y lle medda Fferat Bach oedd yn dreifio, fel bod 'na ddim pwynt stryglyo drwyddo fo.

Erbyn bora dydd Llun odd yr hogia wedi cal amball i sesh yn barod. Roddan ni'n gweiddi fel mylliwr ar y ffordd i mewn i Aberteifi allan o ffenstri'r car nos Sadwrn, wedi yfad yr holl ffordd i lawr. Jest er mwyn gosod y patrwm am yr wythnos ia — oddan ni gyd yn blotto erbyn hannawr 'di deg. Wrth ista ar y maes yn Abarteifi yn digsy! i'r bêcyn ag wy agor bora Sul, ddoth 'na hen ddynas bigog heibio'r hogia a deud ma dyfaru fysan ni ryw ddwrnod. Tasa hi 'mond yn gwobod, odd yr hogia'n dyfaru reit dden and ddêr — tan tro nesa, ia! Gyda'r nos, pan odd hi'n dod o'r capal, mi welodd yr hogia'n ciwio i fynd i'r

Clwb Rygbi.

Bora dydd Llun odd hi'n dechra llenwi go iawn a dodd na ddim cymaint ag un hwrdn na chadar yn y baria blaen yn yr 'Hope and Anchor'. Ar lawr fuo raid i'r hogia ddechra 'u hyfad. Ond odd hi mor ddiawledig o braf tu allan, ath Fferat a fi i ista ar y pafin cynas i êlio.

"Uffar o hwyl gweld pobol barchus Steddfod yn gorod cerddad rownda ni i basio," medda Sam Ceir.

"Hey, you! Get up off there!" Nath yr hogia ddim troi 'u penna.

"Hey, you! You're blocking the gangway." Dim sylw.

Ddath y copar moel ma drosodd at Cooks a gafal yn 'i wallt hir o a gofyn os odd o wedi golchi glustia mis yma.

"Wyt ti'n siarad Cymraeg?" medda fi wrth y cop.

"Odw," medda fynta'n swta.

"Blydi siarada fo ta," medda Bob Blaid Bach sy'n ddistaw fel llgodan os na wylltith o.

Ond Bob Blaid Bach odd y cynta yn y Black Mareia wythnos honno am ei jeek. Nath yr hogia gythral o hwyl am 'i ben o weddill yr wsnos. Deud y bysan ni'n deud wrth Gwynfor Evans ac y bysa hwnnw, hen-ffasiwn fel mae o hefo cwrw, yn siwr Dduw o'u nadu fo fynd a'i bamfflets o gwmpas Sgubs o hynny mlaen!

"Gron bach, y blydi Gog yffernol!" Penniman a Gareth Connolly wedi cyrraedd y Steddfod i greu rycshiwns. Wedi ffeindio Clwb Rygbi odd yn gorod drw'r pnawn.

"Mae'r 'New Ely' yn wag yn yr 'af,' ebe Penniman, "ond ma'n well na chal blydi stiwdents a Gogs 'na!" Smalio ma nhw go iawn, ond dodd hogia dre ddim yn dallt hynny nag oedd?

"Trio codi strop ma'r bastard blewog yna Gron?" medda Fferat Bach.

"Iesu mawr, naci," medda fi, yn cal yn-rhwygo'n ddau rhwng yn mets adra a'n mets newydd yn Gaerdydd.

"Deuda di betha annifyr wrthyn nhwtha a fydd bob dim yn iawn," medda fi. "F.W.A. 'sti," medda fi wedyn yn ddistaw yn 'i glust o.

"Deuda di wrthyn nhw Gron," medda Sam Ceir, "sgin i ddim syniad be 'ma'r bastards yn ddeud — sdi?"

Deud y gwir odd yr hogia'n meddwl mod i'n dipyn o foi yn medru dallt hogia Sowth a siarad hefo nhw. On i fel intyripeter drw'r wsnos ond odd o i gyd werth o er mwyn gweld Bob Blaid Bach a Connolly yn gafael yn ei gilydd yn dynn nos Wener ac yn morio canu, "I'm a Bastard."

Y mistec mwya neuthon nhw rioed yn y Llwyn Dyrus 'na lle rodd Edward Hetch yn canu odd trio nadu hogia dre fynd i fewn. Achos i mewn yr aetha'r hogia, ryw ffordd ne'i gilydd. Diwrnod wedyn gath yr 'ogia fodd i fyw gweld ei hanas yn y 'Western Mail'.

"Lle gest ti hwnna Gron?" medda Cooks. "Lot gwell na 'Daily Post', yndi?"

Ddim bod yr hogia wedi mynd ati'n fwriadol i neud llanast yn y lle. Ond be ond peipia'r bog sydd na i afael ynddyn nhw tra rydach chi'n sleifio i mewn drwy'r lle chwech tra bod Dafydd Iwan a'i fets yn hel y ticedi yn y drws fffrynt? Mi blygon ac mi fystrion nhw nes creu'r fflyds mwya diawledig welsoch chi rioed.

"Isho Arch Noa, ia?" medda Fferat wrth wagio'i humps. A ella bod hi ddim yn gymint o sboc â hynny bod Mimw Besda'n sal fel ci os odd y barman 'na mor stiwpid a dal i syrffio fo a fynta 'di dal hi'n gachu ers oria.

"Ma nhw'n ddigon barod cymyd dy bres di, ond ddim isho'r draffath ia," medda Sam Ceir. Rwbath yn benio g yn Sam weithia.

"Bragwyr Saesneg!" ebe Bob Blaid Bach, ar dop 'i lais.

"Ym, be?" medda bawb efo'i gilydd. "Lle glywist ti hynna?"

"Black-enameled baaaast-ad," ebe Penniman a'i lygaid yn gloewi. Mewn llais is na bas, canai Gareth Connolly'r "Foggy Dew" iddo fo'i hun drw'r twrw i gyd.

"Steddfod dda."

Oddan ni'n byta brecwast cynnar a phryd unwaith y dydd wedyn tua ganol pnawn.

"Chips aye. Fish aye. Bread and butter aye," medda Fferat yn y caffi.

"Do you want anything to drink with your meal?"

medda fodan bach yn cynnig te neu goffi.

"Iesu, no. I had enough to drink already aye!" medda Fferat, Idiot 'di Fferat.

"Os ots 'da chi bido rhegi shwd gimint?" medda'r boi mewn oed 'ma odd efo'i wraig Odd Fferat, sy'n dipyn o geg, am atab yn ôl fel bydda fo'n rysgol ond gesh i mewn o'i flaen o.

"Sori misus," medda fi. "Na ni drio cofio."

"Hy!" medda honno lawr ei thrwyn. "Dwn i ddim beth ma'ch siort chi eisiau yn y Steddfod, na wn i wir. Meddwi a slotian a...."

"'Na ni, 'na ni," medda'i gwr gan sbio'n ofnus ar yr hogia drw gil 'i lygad. "Gad e fod nawr Gladys."

Odd yr hogia rioed 'di clywed neb go iawn efo'r enw Gladys o blaen a fyrstrion nhw chwerthin.

"Gladys wër ar ew?" medda Cooks mewn llais Ryan Davies, "Godsan wirion," medda Fferat dan 'i wynt. A dyma hi'n ffrwydro!

"Y cari-dyms bach diwerth! Y moch bach disafonau!

Difetha'r eisteddfod! Dwyn gwarth a chywilydd ar wyl y genedl. Gwneud son amdanon ni. Ar adegau fel hyn mae gen i gywilydd bod yn Gymraes, oes Mathew, tawn i'n marw'n y fan yma...." a dyma hi'n dechra sniffian erio.

Aeth yr hogia'n ddistaw i gyd. Bob Blaid Bach yn plygu'i ben ac wedi coch'i braidd. Cywilydd bod yn Gymraes... Hyd yn oed Cooks a Fferat yn meddwl bod nhw 'di mynd dros ben llestri. Neuthon ni dalu a gadael.

"Sori misus," medda fi cyn gadal, "fela ma'r hogia."

Pnawn hwnnw hefo'r cymylau bach gwyn yn nôfio fel wadin yn yr awyr uwchben y môr a swn eroplens yn bell bell yn yr awyr yn rhwla, mi gerddodd yr hogia yn ddistaw i fynta'r allt i'r cae. Mi brynon ni 'Lol' bob un, ista mewn cornal o'r lle llychlyd, sbio ar y llunia a darllan rhywfaint o'r joes. Rodd rhywun, meddan nhw, wedi rgio hefo'r gadar a phawb yn poeni na fysa 'na ddim cwt i roid Steddfod flwyddyn nesa. Dydi Jorj Cooks ddim yn gwobod eto lle bydd hi ond mae o'n sbio 'mlaen fel yr hogia i gyd at fynd yno.

# DYDDIADUR DYN DWAD

## 5. Y CO AR Y CARPED

Be oedd y shoc fwya gafoch chi 'rioed? Mi ddeuda i wrtha chi be oedd yr un fwya gesh i. Newydd ddwad drosti rydw i.

Bora dydd Llun oedd hi a finna'n teimlo'n ofnadwy o giarni, wyddoch chi fel byddwch chi ar fore dydd Llun ar ôl tair noson ar y llysh? Mi alwodd Wilcox, bos y lle carpedi yn Howells, arna fi i ddeud bod 'na ddwy ddynas isho ngweld i. Isho ngweld i'n sbeshal! "Chans am dip," medda fi wrtha fi'n hun, a ffwrdd â fi i gweld nhw.

Roedd un wedi'i gwisgo mewn cot ffyr fowr lawr at i ffera a'r llall yn cario ambarel swane i gadw glaw mân y bore o ddar i gwalltia £20 nhw. Golwg râl crach ar rhein — bownd o gal tip.

"Y chi ydi Goronwy Jones?" medda'r Got Ffyr wrtha i yn bigog.

"Ia, fy madam, fedra'i neud fy ngorau i chi?" medda finna'n bolet i gyd.

"Y chi sy'n sgwennu'r pethau ffiadd a gwarthus yna yn *Y Dinesydd*?" medda'r Ambarel a'i llgada hi'n dechra tanio'n i phen hi.

Don i ddim yn gwbod yn iawn be odd gora imi ddeud. Do 'laen Gron bach, medda fi wrtha'n hun, iwsha dy fréns. Dydi rhein ddim yn edrach yn glên iawn.

"*Sbectol Sian* ydach chi'n feddwl, ia?" medda fi. "Naci'n tad, ddim fi ydi honno. Mi ddeuda i wrtha chi pwy 'di..."

"Eich sothach cableddus CHI yr ydan ni'n son amdano. Y dyn dwad felltith yna sy'n gwneud ensyniadau enllibus am ieuencid da ein prif-ddinas, yn llymeitain ei ffordd drwy fore ei oes, ac yn defnyddio geirfa nad yw'n un dim ond sen ar ein traddodiad Cristnogol Cymraeg..."

Ro'n i'n gweld sér. Fanna ro'n i yn y ngwaith yn hun am chwarter i ddeg ar fora dydd Llun yn cael yn nhrin fel hogyn ysgol gan ddwy bladras o ddynas nag oedd gin i ddim gobaith mul mewn Grand Nashnal i ddenig oddi wrthyn nhw. Wnesh i ddim teimlo fel hyn ers pan fuesh i o flaen Jones sgwl am fod yn hogyn drwg hefo Meira Bach Caethro ar gae'r ysgol ers talwm.

Roeddau nhw yno, meddan nhw, ar ran ryw gapal neu'i gilydd ac yn mynnu 'mod i'n stopio gyrru'r storis 'ma i'w papur lleol NHW.

"Ydach chi wedi eistedd yn

ôl am eiliad, fachgen, i ystyried yn ddwys effeithiau eich gweithredoedd?" ebe'r Ambarel. Ac yn sydyn, dyma hi'n dechra 'mhwnio fi hefo'r ambarel coch. Y 'mhwnio fi yn fy mol i ddechra a finna'n gneud am yn ôl tua'r wal. Ac wrth son am blant bach diniwed y ddinas yn cael eu llygru gan ynghelwyddau fi dyma hi'n dechra colli arni a mynd yn gynddeiriog, a dechra 'mheltio fi left, right and centre hefo'r ambarel. Hynny fedra'r got ffyr oedd ei dal hi'n ôl.

Erbyn hyn rodd lot o bobol yn y siop wedi stopio i syllu ar y twrw a'r sgrechian. Rodd gin i gwilidd ofnadwy, ac mi ddoth Wilcox draw i ofyn be goblyn o'n i'n feddwl o'n i'n neud yn ypsetio'r cwsmeriaid mor gythreulig.

"Gobeithio bod ych cydwybod chi'n dawel, dyna'i gyd," medda'r Got Ffyr wrth adael a'i braich rownd yr Ambarel a oedd yn sobian crio erbyn hyn. Eisteddish i ar Axminster i gael y ngwynt ata.

Y noson honno, gynta fedrwn i, mi esh i fyny i lle'r hogan sy'n gneud y papur 'ma a deud wrthi, "Sori del," medda fi, "Ma petha fel hyn yn ormod i'n nyrfs i. Dwi ddim yn mynd i sgwennu stroc arall ar gyfar y ----- anniolchgar. Gneud y ngora. Chwysu chwartaia hefo 'Geiriadur Mawr' ar yn llaw chwith a beiro ddu yn yn llaw dde fi. Straffaglu drwy eiriau Gymraeg na dwi rioed wedi gweld nhw o blaen er mwyn sgwennu pejan i'r papur 'ma a dyma dwi'n gal. Yn waldio'n gyhoeddus am yn nhrffarth. Sori de, ond 'na fo. Ma 'na ben draw ar gwstard wy?"

Nath y fodaen ddim deud llawar, ac rodd 'na rwbath yn deud wrtha fi bod hi'n falch bod fi'n stopio sgwennu. Rhwngthi hi a'i phetha medda fi wrtha'n hun, ac off a fi am beint i'r Ely.

"Aaaaaa! Dyma fo!" sgrechiodd Dai Shop pan esh i mewn i'r pyb. "Tyrd i weld be sginon ni fan hyn Gron bach." Be odd gynnon nhw ond y papur Cymraeg yna, *Y Cymro*. Nesh i gochi at ynghlustia achos be odd 'na ar dudalen flaen y papur mewn print bras ond hanas yr hogyn ac fel rodd o wedi ypsetio crach Cymraeg Caerdydd hefo'i sgwennu

C.S.E. Cymrodd hi bump peint o M & B i ddod a fi ata'n hun ac erbyn hynny dodd dim ots gin i eniwe. Rodd yr hogia i gyd yn deud 'na'r Snwyrwr odd y bai am y stori. Fydd o'n dwad rownd weithia i snwyrwr am storis. Dwi wedi weld o'n hongian wrth y bar fatha sbei.

"Ia. Y trwbwl ydi bod o'n cael i ddosbarthu yn y 'sgohon," medda Froggitt sy'n stiwdant ag yn meddwl gormod.

"Paid â malu -----," medda Dai Shop. "Ro'n i'n gwbod sut i regi'i hochor hi cyn mynd i'r ysgol o gwblw."

"Cofia 'na, angylion bach crach Caerdydd ydi rhein," medda Nowi Bala. "Ma rhein yn gorfod chwilio mewn papurau Cymraeg am eu rhegfeydd. Elli di feddwl am blant yn rhegi ar iard Bryntaf?"

"Up the L.R.A." medda Connolly.

"Ti'n eisiau peint o Guinness Gron bach?" medda Jero Jones, y dysgwr.

"Os stopi di sgrifennu nawr, ti'n rhoi lan w. Smo ti'n erfyn i nhw de'odi gosfa i ti?" medda Stan "Crossroads". Fydda i ddim yn dallt hannar be mae Stan yn ddeud chwaith.

Siarad fatha Caleb yn union.

"Mae nhw'n meddwl taw 'War Cry' Cymraeg ydi'r Dinesydd," medda Dai Corduroy.

"Ostriches," medda Penniman gan roid ei wydyr i lawr yn glep ar y bwrdd nes bod i lager o'n sboncian.

Rodd yr hogia hefo fi'r holl ffordd ac yn sydyn, dyma fi'n teimlo'n ddigon calonog i ddeud hanes y bora wrthyn nhw. Rodd y lle'n ryeshiwns a phowb yn bystio chwerthin dros lle pan sonish i am yr ambarel.

Wsnos dwetha, ro'n i'n cerddad lawr yr 'Hayes', wedi bod yn y 'Greyhound' amser cinio, a phwy welish i'n ei lordio hi wrth siop 'Joe Coral' ond y Got Ffyr a'r Ambarel ei hunan. Fyswn i'n taeru bod nhw'n siarad Susnag hefo'i gilydd, ond doedd hynny ddim yn bosib achos bod y ddwy'n siarad Cymraeg hefo fi yn Howells. Rodd yr ambarel yn cael ei iwsho tro 'ma i hel o'r neilltu rhyw alci chwil oedd yn begio am bres. Ac yn y fan a'r lle, dyma fi'n teimlo'n benderfynol 'mod i'n mynd i sgwennu un dshyn arall o leia. Doedd y ddwy yna ddim am ynghuro fi.

GORONWY JONES

## BYWYD

Dydd Mawrth 29ain o Fawrth  
am 10.35p.m.

Dafydd Iwan yn tywys y  
gwylwyr yn ei gynefin yn

Arfon. Bydd yn trin a thrafod  
problemau'r gymdeithas

wledig



o'r Ganolfan Deledu yng  
Nghaerdydd

# DYDDIADUR DYN DWAD 6. AR Y CLWT

Dwi ar y clwt. Wedi cal yn hel allan o'n fflat os na dyna fysach chi'n i alw fo. Y math o le lle mae'r blydi lot ond y bog wedi cal i stwffio i mewn i un rŵm. Fuo raid i fi smalio 'mod i'n stiwdant i gal fannu. Mi ddeudodd Frogit, un o'r clenia o'r stiwdants yn yr 'Ely' wrtha fi am fynd at ryw fodan yn y coleg, rhoid 'i enw fo a gofyn am fflat go rad yn Roath. Mae saith sgrh am un rŵm yn dipyn o dolc ond rodd y lle'n handi ar gyfar yr 'Ely', y 'George', y 'Claude' a'r 'Crwys', felly dodd alci fatha fi ddim yn cwyno, nag oedd?

Deud gwir, dwi'n falch o fod o 'na hefyd. Pobol wirion ar y diawl yn byw yno. Y Paki drws nesa odd isho menthig petha o hyd, a'r peth 'gosa welsoch chi rioed i fwnci yn byw uwch y mhen i ac yn deud dim ond 'Cool it man' bob tro byddwn i'n gwyltlio fod 'i record-player o'n rhy uchel.

"Blydi 'el. Some of us got to work in the morning mate", medda fi.

Rodd o'n iawn yn yr atic yna achos bod yr hen gnawes bia'r tŷ yn byw ar y gwaelod a ddim yn 'i glywad o. Tasa hi'n gwbod mi fysa hi fyny 'no fel shot. Dim genod ar ôl deg. Un bath yr wnos ar ôl gofyn iddi hi roid yr imyrion on awr o flaen llaw. Dim straenio cabij yn y sine yn y bathrwm. Dodd 'na ddim sine yn ych rŵm chi, felly os oeddaech chi mor wirion â berwi cabij dwn i ddim lle, ddiawl oeddach chi fod i straenio fo.

Ron i wedi cael uffar o sesh dda nos Sadwrn, ar crawl efo'r hogia, o'r 'Claude' i'r 'Crwys' a landio fyny yn yr 'Ely' i ganu' a dodd hi 'modd naturiol bod ni'n mynd lawr i'r 'Casa Martinez' yn St. Mary St. i gario mlaen. Wath i fi gyfadda ddim nad ydw i wedi cael llawer o lwc efo fodins es pan ydw i yn Gaerdydd yma. Dipyn bach gormod o sgruffy dwi'n meddwl i'r fodins bach sidet Cymraeg 'ma. Ond ddath y fodan 'ma fyny ata fi tra oeddwn i'n yfad gwin efo Stan Crossroads yn y 'Casa'. "You want dancing?" medda hi wrtha fi.

Ffordd ryfadd uffernol o ddeud y peth on i'n meddwl, ond fyswn i'n nyts i wrthod. Cân ara deg odd hi ag odd y fodan yn closio ata' i'n uffernol wrth ddownsio, a dyma hi'n dawnio arna fi — ti'n O.K. yn fan hyn Gron Bach! Odd hi'n llyfu'n loesyn coch i a deud bod hi'n licio'r 'kiss-curls' tu nôl i 'nghlustia fi. On i ddim yn gwbod bod gin i rai. Ar ôl rhw lasiad neu ddau arall o win a mwy o swsio a gwasgu, mi ddeudish

i wrth Stan bod ni'n mynd. "Bob lwc", medda Stan. "Ond smo ti'n erfyn llawer o fe."

Nyrs odd y fodan 'ma. Gwallt coch fatha finna. Adar o'r unlliw ia? Ond odd hi'n deud na fysa hi byth yn medru mynd yn ôl i'r hostel yn yr Heath radeq yna o'r nos. Mi fysan nhw'n deud y drefn yn uffernol. Ro'n i'n gwbod bysa'r hen sgathan yn y tŷ cw'n siwr Dduw o'n dal ni, ond lle arall aethan ni de?

Bore wedyn tua saith o'r gloch, mi sleifion ni allan o'r tŷ ag o'n i'n teimlo'n rêl boi wrth nôl y 'News of the World' ar ôl rhoid y fodan. Freeda oedd 'i henw hi, ar y bys. Wedi llwyddo mynd heibio i gard Fort Knox, ia? Nesh i ddim meddwl mwy am y peth, ond pan ddesh i adra o'r gwaith nos Lun, dyna lle'r oedd hi. Mrs. Wilcox, yn sbio'n ddu arna i wrth waelod y grisia. Heb yngan gair o'i phen, dyma hi'n rhoid darn o bapur i fi.

"Notice to quit". Os o'n i'n meddwl 'mod i wedi'i thwylio HI, ro'n i'n gwneud coblyn o fistec. Dydy Mrs. Wilcox ddim wedi cysgu noson gyfa o gwsg ers pan gollodd hi 'i gwr bedair blynedd yn ôl. On i dipyn o bit drosti hi, deud gwir, ac mi fyddwn i'n dwad â darno sbâr o garpad iddi o'r gwaith. Darna fysa'n gneud yn iawn iddi o flaen yr aelwyd, ia. Ond fysa holl Axminsters y byd ddim yn achub y sefyllfa bellach.

Nid yn unig odd hi'n gwbod bod Freeda wedi bod acw drw'r nos, ond mi fydd Mrs. Wilcox hefyd yn mynd drwy rŵms y pedwar hogyn yn ei thŷ hi bob dydd, yn llau a gwagio'r bins a symud ych petha chi o gwmpas. Esgus da i fysnesu o'n un meddwl. A rodd beth welodd hi ar y Chest-of-Drawers wedi gneud iddi wylltio go iawn. "I don't 'ave a son. But if I 'ad, I 'ope 'e wouldn't behave the way you do", gesh i.

A fanna gollish i'n limpin. Rydach chi'n gorod gwenu a ffalsio a llyfu tinau rhyw

grachod yn Howells drw'r dydd, a deud 'Syr' wrth fosus ma'n gas gynnoch chi nhw, ond does 'na ddim uffar o berig bod neb yn mynd i ddeud wrtha i sut i fyw yn amser yn hun, heb son am fynd drw mhetha fi a bysnesu. "Stuff your notice", medda fi. "I'm going now."

A fyny a fi i bacio 'nghesus a chyn i chi ddeud Jac Robinson, roeddwn i'n cerddad dros y rhiniog efo oes ymhob llaw.

"Merry Xmas to you too", medda fi wrth adael y ddynas yn sbio fel ysa rhywun wedi dwyn 'i chaws hi. A dyma fi'n bangio'r drws gymaint a fedrwn i.

Dim ond ar ôl i fi gerddad rhyw ganllath lawr lôn yn dal i regi a rhywgo dan y ngwynt nesh i sylweddoli be' o'n i wedi neud. Lle'r awn i? Dwi wastad wedi deud bod cwrw'n atab bob problem felly lawr â fi erbyn amser agor i'r 'New Ely'. Drwy lwc, pwy oedd yna yn ffyddlon fel y dur uwch 'i 'Guinness' ond Jero Jones y dysgwir.

"Shwmai, Gron bach. Rwyf ti'n moyn peint. Yr wyf fi yn siarad yn ardderchog nawr. Cas Cymro a sy'n meddwl yn iaith Saesneg". Mae e'n licio cal hynna drosodd cyn i ni gael sgwrs go iawn yn Saesneg. Ddeudish i'n stori wrtha do a fynta'n cytuno bob hyn a hyn hefo, "Hope so", a "Can't do it, see". Twll dy dim di Mrs. Wilcox oed hi erbyn naw a phawb yn yr 'Ely' yn gwbod am fy mhroblem i.

"Tyrd i lle ni heno", medda Frogit. "Mi fydd un o'r hogia yn siwr Dduw o fod yn aros efo'i fodan." Mae'r hogia'n byw yn Albany Road a byth a hefyd yn hel straes

fatha fi. Rodd 'na foi o Llydaw yno hefo Connolly ers mis, wedi dwad i Gymru er mwyn dojo mynd i'r armi yn Ffrainc. Mae 'i loesun o at 'i fol o rwan, a dwn i ddim pa mor hir fydd o erbyn bydd hi'n saff iddo fo fynd yn ôl adra.

Mae Dai Siop sydd newydd gal 'i leishans yn ôl ar ôl cal 'i ddal hefo'r breathalyser yn Steddod Criath yn byw yno hefyd a gafon ni gyd lifft yn ôl hefo fo yn 'i gar. Pawb ond Frogit sy'n dipyn o ladies man ac yn canlyn rhyw fodan newydd bob lleuad.

"Stiwdant wyt ti?" medda fi wrth y pumad boi odd yn y car.

"Arglwydd, naci. Gweithio'n Sant Ffagans dwi", medda'r boi.

"Yn lle?" medda fi.

"Amgueddfa Werin Cymru, de", medda'r boi.

"Wsti Gron, lie ma nhw'n ail-godi hen dai o'r oesoedd o'r blaen," medda Dai Siop, sy'n dichyr. Ddim llawar callach wedyn chwaith.

Roeddwn ni'n digwydd pasio stryd Mrs. Wilcox ar y ffordd adra a dyma fi'n rowlio ffnest i lawr, hongian allan o'r car, codi dau fys a gweiddi fel dyn gwirion, "Stwffia dy blydi tŷ, y bitch!", fel tasa hi'n fy nghlwad i.

Rodd yr hogia i gyd yn holti 'u hochra, a mi chwertion nhw'n fwy byth pan nesh i ddechrau mynd yn sentimental nes ymlaen a deud os odd 'na Samaritans Trugarog heddiw, ma nhw oeddwn nhw, yn rhoid hand i hogia fatha fi pan ma nhw maen trwbwl yn Gaerdydd.

GORONWY JONES

## CALENDR EBRILL-MAI

### EBRILL

- 23 Cymdeithas Gymraeg Dynion Rhiwbeina. Darlith gan ISLWYN JONES Tafarn Pantmawr.  
25 Canolfan Addysg Oedolion yr Eglwys Newydd CELFYDDYD AM BLESER Gwers Un 7.00p.m.  
Clwb Tŷ'r Cymry CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 7.30p.m.  
29-30 Cwmni Drama Ysgol Gyfun Rhydfelen AGI AGI Neuadd yr Ysgol 7.00p.m.

### MAI

- 2 Cwmni Theatr Cymru, Adran Antur CYMERWCH, BWYTEWCH Yr Arena, Theatr Sherman, 6.30 & 9.00p.m.  
C.A.C. Yr Eglwys Newydd CELFYDDYD AM BLESER Gwers Merched y Wawr HWYL A SBRI gyda Eleri Rogers a Myra Jenkins Caonlfan yr Urd 7.30p.m.  
4 Y Gymdeithas Wyddonol PROSEAU MEDDWL MEWN MYFYRWYR Dr Gareth Lotwick 7.15p.m.  
Cymdeithas Heol y Crwys HELFA DRYSOR AR DROED gyda Ken Innes a John Albert Evans.  
7 Cylch Meithrin Lllystfaen MIRI'R WERIN Canolfan Gymdeithasol Lllystfaen 7.30p.m.  
9 C.A.C. Yr Eglwys Newydd CELFYDDYD AM BLESER Gwers Tri.  
13 Cymdeithas Gymraeg Dynion Rhiwbeina. Darlith gan IFOR REES Tafarn Pantmawr.  
14 Y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol NOFIO NAWDD i godi arian at Ganolfan yr Urd.

# DYDDIADUR DYN DWAD PWY LADDODD YR ELI? (MEDDAI CLYCHAU Y RHYMNI)

"Pam na fysach chi'n deud wrtha fi'n gynt?" me fi wrth yr hogia un nos Sul uwch peint yn y 'Crwys'. Fanno roddan nhw i gyd a'u penna'n 'u plu yn teimlo'n uffernol o ddigalon yn sipio'u 'Brains' fel tasa fo'n wenwyn. "Fysan ni wedi medru cael un coblyn o sesh yno cyn i ni adael y lle i'r Saeson."

Fedwrn i ddim coelio 'nghlustia. Ro'n i newydd glwad y newydd bod yr hogia wedi cael 'u troi allan o'u hail-gartra, y 'New Ely'. Dwi allan o gysylltiad yn lân bellach ers pan yd w i'n byw hefo Belinda yn Grangetown. Naturiol, ma'r 'Ely' wedi mynd i feddwl llai i fi nag oedd o yn ddiweddar ond rodd rhywun fel Gareth Connolly'n teimlo i'r byw.

"Pymtheg blynyddoedd roeddwn i'n byw yn y lle 'na," medda fo a'i stagars o'n llydan 'gorad fel dyn wedi cael sioc fowr. "1963 dechreuon ni pan roeddwn i'n tri deg oed dim ond, a ddim yn wedi dechrau dysgu Cymraeg."

"Ie," medda Dai Corduroy, "Achos y lle 'na dechreuas i dysgu'r iaith hefyd. Roedd e'n cartref y Cymry yn Caerdydd. A nawr ni'n ddigartre."

"Dwi'n gwobod yn iawn sut 'dach chi'n teimlo hogia," me fi. "Dwi'n cofio pa mor giami odd y teimlad pan gesh i'r bwt o'n fflat gin yr hen beunas Mrs Wilcox 'no stalwm."

Ro'n i wedi ama bod rwbath o'i le pan esh i'r 'Ely' nos Sadwrn cynt. Bob hyn a hyn fyddwn i'n mynd am sesish efo'r hogia heb Belinda, rhag bo fi'n ddiarth ia? Dyma fi mynd i'r bar rel llanc, yn taflu drws y bar ar agor fatha John Wayne yn mynd i mewn i salwn. Ond yn lle croeso swnllyd yr hogia, bwrdd o gardia yn aros amdana fi a Frogit yn canu 'Hen ferch hetan' nerth 'i ben, y cwbl welwn i odd lond lle o Bakis a dynion duon a cofis Coburn Street yn chwara darts a teblffwtbol a'r jiwce boes yn crynu gin sw'n. Godish i beint a gofyn i'r fodan lle rodd yr hogia. "Pwy blydi hogia?" medda hi "Newydd ddechra 'ma dwi." Dodd neb o'r barmails yn aros yno'n hir chwaith. Dyma fi'n stagio o gwmpas a sylwi bod llunia Waldio Williams a DJ 'i frawd wedi cal'u tynnu lawr. "Who the hell are they?" medda'r fodan pan ofynish i lle roddan nhw. Rhaid i fi gyfadda bo fi rioed 'di clwad am y ddau sgwennwr cynt ond mi ro'n i wedi dwad reit ffond ohonyn nhw'n gwenu o'r walía ar yr hogia'n cael peint ac yn edrach

ar yn hola ni.

"Sti be Dai Shop. Ro'n i'n teimlo fel sgodyn ar dir sych pan esh i yno neithiwr. Do'n i ddim yn nabod y lle."

"Aye," medda Dai "Wnest ti sylwi 'u bod nhw hyd yn oed wedi tynnu'r *Ddraig Goch* i lawr o gefn y bar? Fel bo fo'n cyfadda ma dim ond y Cymry Cymraeg sy'n Gymry o gwbl."

Methu'n glir a dallt pam o'n i, ia. Pam bysa'r dyn sy'n rhedag y lle mor wirion a thro'i drwyn ar fusnes. "Pa fusnes ti'n feddwl," medda Stan 'Crossroads' "ti'n erfyn i nhw gadw bar mowr fel 'na ar agor i lond dwrn o ni bob nos?" A dyma fi'n dallt bod yr 'Ely' wedi mynd i lawr yn ofnadwy'n ddiweddar.

"Mae'r bai ar cachwrs fel ti!" medda Denzil Penniman, "ddim yn dod i'r 'Ely' dim ond unwaith mewn lleuad glas. A'r snobs sy'n mynd i'r 'Conway', a'r 'craze' hyn dros ifed 'Brains', a'r blydi stiwdents sy'n gweithio fel blaes am 'u two twos' pathetig ac yn dod mas am ddeg os y'n nhw'n dod mas o gwbl."

"Naddo, wnath y bar ene yng Ngholeg Cyncoed fymryn o les i'r 'Ely' chwaith," medda Frogit. "Thrafferthodd y ciw athrawon ddim dwad lawr ene wedyn."

"Fi'n cofio pan rhaid oedd i chi wedi dod i'r 'Ely' am chwech o'r gloch neu fyddai dim sedd ichi," medda Connolly a'i llgada fo'n gloywi. "Yn y blwyddyn ardderchog hwnnw 1969, aye. Dyniadon Ynfyd Hirfelyn Tesog. Roeddwn nhw'n canu yno b ron pob nos ti'n gweld ac roedd yr awyrgylch yn ffantastic. Ond nawr beth yw'r pwnc? Ni ydy bai am marw 'New Ely'."

"Gwrandda ar rhein yn siarad," medda Dai Shop. "Fysa ti'n meddwl bod nhw wedi mynd yn ddistaw y noson pan ddeudodd y Gesler wrthyn nhw am 'i gleuo hi."

"Be ddigwyddodd Dei?" me fi'n eceited i gyd.

"Wel, fyswn i ddim yn deud bod Penniman wedi gwasgu pob ashtay'n y tŷ yn lwmpyn bler o fetal na bod Connolly wedi gollwng ar ddamwain pob gwydyr peint ar ôl gorffan 'i ddiod nes odd o'n racs jibiders ar lawr. Dim

byd feily. A, wyt ti'n cofio Harvey'r Llydawr Lloerig yn cael ei fanio o'r 'Ely' am regi fo a'i wraig? Wel roedd be ddeudodd Harvey fel adnod Ysgol Sul i gymharu â'r budreddi ddoth o gega'r hogia. Dyna iti..."

Ddeuda i ddim ne mi fysa'n rhaid cael hogan newydd eto i 'neud *Y Dinesydd* 'ma. Ond rodd gin i biti sobor drosd yr hogia ar y clwt fel hyn.

Wrth fynd o Grangetown i dre efo'r fodan ddoe y gwelish i Stan 'Crossroads'. "Read the *Echo*, Bel," me fi, "while I talk Welsh to Stan aye." Rodd hi'n grêt cael ar ddallt bod bywyd yr hogia ar 'i fyny:

"Ar ben yn digon w," me Stan. "Ni'n cysylltu da'n gli ar y ffon GPO sydd yn fflat Penniman. Ma'r lle fel 'Exchange' w! A ni'n diseido o ddydd i ddydd ble ni'n mynd i. 'Crwys' bob nos Sul nawr cofia. 'Tavistock', 'Roath Park' ni'n mynd rownd nhw i gyd yn 'u tro ac yn cwrdda'r locals. A fi wedi ffindo'r bar gwin newy hyn 'Qui Qui's'. Ti wedi bod 'na? Choc-a-bloc 'da wejens! w! W! W!

"Ond mwy na 'ny. Gwranddo ar hyn. Ma'n tafarn newy'n hunen 'da ni hefyd. 'Rhydney' ar bwys y jêl. Tam' bach yn rfff on'd na fe. Aye, ni'n cwrdda na bob nos Wener a nos Sadwrn. A ma'r gair yn dechre mynd o beiti erbyn hyn. Ma'r hen foi hyn o Skewen sy'n siarad Cymraeg yn whare'r piano yno ac wrth 'i fodd yn chwarae'r hen emyne. Ma Cymdeithas yr Iaith yn bwriadu cael gwad noson werin yno rywdro mis hyn. Dere draw w. Ma ysbryd yr 'Ely' eto'n fyw."

Weithia pan fydda i'n ista hefo Belinda a'i ffrindia Saesneg yn y 'Grange Hotel' yn ystod yr wnos fydda i'n cael pwl hegar o hiraeth am yr hen ddyddia a'r hwyl gesh i yn yr 'Ely'. Ma'r dyn yna wedi lladd rwbath grêt. Ond mi â i draw i'r 'Rhydney' 'ma nos Wener am dro i chwilio am yr hen hwyl. Am 40c ellwch chi brynu llyfr CAMRA 'Gwir Gwrw yn Ne Morgannwg'.

Dowch 'ni weld. "Rhydney Hotel Adamstown — Large Local. Occasional sing-songs round piano." Ma rhaid bod nhw wedi clwad am yr hogia'n barod! Does 'na ddim gair am y 'New Ely' yno fo o gwbl.

GORONWY JONES

# Y DYN DŴAD

## Wnei di sôn ychydig am dy gefndir?

Cesh i ngeni yn C & A Bangor yn 1958 pan nath Bolton guro Man U yn y cyp ffeinal. Nath yr hen fod 'y ngalw fi ar ôl Goronwy Roberts, M.P., achos bod o wedi ffendio job i'r hen go ar Crossville pan gafodd o sac o chwarael Llanber. 'Labour' oedd dre i gyd ers talwm tan i'r Blaid Bach ddwad rownd sgubs un diwrnod pan o'n i'n llai a throi pawb atyn nhw efo 'badges' a sticers a caneuon Dafydd Iwan a ballu. Blaid Bach 'di Mafia dre bellach. Gei di ddim byd os wyt ti ddim yn Wigli. Ydi hynna'n ddigon?

## Beth yw'r rheswm am dy gasineb at fyfyrwyr?

Fysan nhw ddim yn rhoid'u c ..u i chdi, dyna pam. Dwi 'di rhoid menthyg mags i ddwsina ohonyn nhw. Pa fags fydda i'n gal pan fydda i'n gofyn amdano fo'n dól? Gobaith mul mewn Derby sgin ti o gal niwcan goch o din yr un ohonyn nhw. Oes arna chdi rwbath i fi? O'n i'n siarad hefo'r dyn tacsî 'ma noson o'r blaen. Wedi stwffio chwech stiwdant mewn tacsî i'r 'Casablanca' medda fo. Dim ond pedwar sy' fod ond gneud ffafr efo nhw,ia? Wyt ti'n meddwl gafodd o sentan gynnyn nhw am 'i draffarth. Ff. c o beryg. 'Short arms, long pockets, dem tight-arsed North Walians, all de same'. 'Ddim pawb, dyn du,' medda fi a rhoid chweig o dip iddo fo er mwyn cadw enw da'r Gogledd.

## Ond heb fyfyrwyr fuasai 'na fawr o lewyrch ar fywyd tafarnol Caerdydd.

Nhw sy'n sboillio fo tasa chdi'n gofyn i fi. Ar y cychwyn, roeddwn i a'r hogia'n cael nosweithia bach digon hwyliog yn yr 'Halfway' ond be' ti'n feddwl sy'n digwydd rwan? Blydi stiwdants uffar a'r snobs T.V. 'ma yn llenwi'r lle fatha tun o 'sardines'....

## Pam felly wnest ti gyfrannu at bapur y Coleg?

Do, rosh i bejan i 'Ar Daf' am y ffordd nath Bel a fi gwarfod yn 'Le Mans' Dydd Gŵyl Dewi. Dim ond achos bod y 'Dinesydd' 'na wedi banio fi hefyd, cofia. Does gin i ddim byd i ddeud wrth stiwdants a fyswn i ddim yn codi bys bach i helpu dim un ohonyn nhw ar wahân i Frogit y stiwdant clên a dydi hwnnw ddim yn

PEDWAR

stiwdant bellach chwaith. Blydi arcitect ydi o rwan. Ti'n nabod o? Iesu, mo 'di newid.

## Faint o wirionedd oedd yn straeon

### 'Y Dyn DŴad'?

Os na 'dyn nhw'n wir, ia, sut fyswn i'n medru 'u sgwennu nhw? Yndyn, siwr Dduw, ma' pob un wan jac yn wir. Be fysa Denzil Penniman a Connolly yn ddeud, heb sôn am 'i neud i chdi, os bysa chdi'n deud clwydda amdany'n nhw? Y?

## Ond fe greaist ti helynt gyda'r capeli a phobl ddylanwadol y ddinas? Oedd hyn yn peri loes iti?

Dwi ddim yn siwr iawn bod fi'n dallt be' sgin ti rwan 'de co, ond dwi'n meddwl ella ma' hyn. Ti'n cega mod i'n pechu erbyn penna bach a phobol fawr Caerdydd? O.K. Hyn dwi'n ddeud, ia. Pam ma' pobol fawr yn controlio bob dim? Ma' nhw'n controlio'r 'Dinesydd'. A dyna i chdi bapur uffernol o 'boring' ydi hwnnw. Ma' nhw'n controlio llyfra Cymraeg, a welist ti 'riced rwbath mwy sych grimyn na rheiny, ddyn bach?

Ddeuda i wrtha chdi hyn, ia. Ma' na bobl yn dre 'cw sy' wedi darllan llyfr Cymraeg am y tro cynta yn 'u bywyd ar ôl i lyfr yr hog ddwad allan. Prynodd yr hen fod fo a'i fenthyg o i Leisa Parry Gas No. 10. Ath gŵr honno â fo i Ferodo a rhoid i fenthyg o i ryw foi o Felinheli. Y diwedd-ara ydi bod o'n mynd o gwmpas ffatri sosej Roberts, Portdinorwig ac yn rhoid laff iawn i'r hogia'n fannu uwchben te deg. Ma' copi Sam Ceir Abar yn dipia jest, gymaint o bobol fuo'n 'i fodio fo ac mae o ar goll rywle yn Bethesda ar hyn o bryd.

Os ti ishio i'r hogia ddarllen Cymraeg, sgwenna rwbath ma' nhw'n ddallt am bobol go iawn ddim ryw falu c ..u uffar.

## Un peth sy'n ddriswch imi, Gronw, yw'r modd y daeth yr erthyglau'n llyfr.

Paid a 'ngalw fi Gronw, 'nei di? Enw hyll. Fel hyn o'dd hi. Brôc yn y 'Casino' un nos Sadwrn. Gwydyr gwag o 'mlaen. O'dd gin i bris peint o 'Brains' ond ti'n gwbod y ffortiwn ti angan i brynu hanner yn y 'Casino'. Dyma'r boi 'ma o Groeslon draw ata fi a chynnig peint. 'Dallt bod chdi'n sgwennu straeon budur', medda fo. 'Straeon gwir', medda fi. Meddwl

bod o'n bowld braidd. Erbyn gweld, dyn gneud llyfra odd y boi Mei 'ma a dyma fo'n gofyn imi fyswn i'n licio gneud un. 'Fedra i ddim fforddio talu i chdi', medda fi'n dechra. Gweld ma' rhyw fath o 'salesman' o'dd hwn wedi prynu lysh im i er mwyn trio hwrjio'i lyfra i fi. 'Y ni fydd yn talu i chdi, siwr Dduw', medda fynta. A dyma fi'n dechra sylweddoli bod y Mei ma'n foi da ar y diawl.

## Wel, Goronwy, mae hi wedi dod yn amser cau pen y mwdwl unwaith yn rhagor, rhoi'r ffidil yn y to, dod i ben y dalar ac i derfyn y rhawd. Oes 'na unrhyw bwynt y carech chi ei wneud cyn cloi?

Fyswn ni'n licio rhoid rhybudd i bawb bod 'Dyddiadur Dyn DŴad' jest iawn allan o brint. Dim ond deg niwc ydw i'n gal am bob un. Felly ma' gofyn cal gwarad a bedwar llyfr cyn gwneud pres peint. Felly gwnewch yn siwr o'ch copi rwan hyn.



Goronwy Jones

## Cariad

## Pur

"Roeddwn i mor eceited odd rhaid i fi ga'l deud wrth yr hogia yn yr Eli. "Hogia," me fi un nos Lun pan odd y pyb mor ddistaw â mynwant Nant Gwrtheyrn "dwi 'di bod hefo chi rwan am dros flwyddyn a da chi 'di bod yn uffernol o dda hefo fi a dwi isho ichi fod y cynta i wbod rhwbath pwysig iawn".

"Gwbod be?" medda Dei Shop - bod chdi wedi landio aciwmwletor ar y nags?" Ma betio'n waed Dei Shop.

"Naci, bod o'n mynd o 'ma i uffar a'n gadal ni mewn heddwch", medda Ffrogit sy'n poeni'i enaid y bydd rhaid iddo fo roid gora i fod yn stiwdant flwyddyn nesa a dechra gweithio fatha pawb arall, ac sy wedi chwerwi'n ofnadwy ers pan nath 'i fêts o Lais Ogwan ac Adar Rhianon a rheina 'i ddisyrtio fo a mynd i yfad Brêns i'r Crwys bob gafal.

"Os da chi ddim isho clwad hogia, by-gra chi!" me fi a dechra sorri'n bwt.

"Stopwch bygutan bois," medda Stan 'Crossroads' ('cega' odd o'n feddwl).

"Dere'r mwlsyn diawl. Gwed be sta ti".

"Y gwir ydi, hogia, na fydda i ddim yn yfad hefo chi bob nos o hyn ymlaen".

"Iesu Gwyn!" medda Dei Shop. "Mae Ebeneser wedi ca'l eu dwylo arno fo!"

Mi stopiodd Connolly yfad 'i Strongbow am eiliad a sbîo arna fi o'r "Foggy Dew" fatha tyswn i'n myll.

"Dim rhagor o chware brag?" medda Wynho.

"Dim Papagîos?" medda Stan.

"Dim mwy cwrw?" medda Harvey'r Llydawr lloerig - ddim yn gwybod yn iawn be oedd yn digwydd.

"Dim ots gin i be ddeudwch chi", me fi, "ma rhwbath'di digwydd ifi sy'n mynd i newid yn holl fywyd i. Dwi 'di syrthio mewn cariad hefo'r fodan 'ma, so ddêr".

Dechreuodd y Ffrogit 'na biffian chwerthin, tagodd Dei Shop ar y cwrw Ambyr rhad 'na ma o'n yfed ac odd chwerthin Connolly'n diasbedain drwy'r Eli wrth fownsiau o wal i wal. Ond odd ddiawl ots gin i amdanyu nhw. 'Ro'n i'n teimlo'n ddyn beionig ers ifi gwarfod Belinda. 'Ro'n i'n llusgo'r Acsminsters trwm o gwmpas Howells fel tysa nhw'n fagia o blu.

"Ddim Freeda Hwran, y nyrs?"

"Naci. Thwtish i mo honno wedyn".

"Dere mlan te", medda Stan yn bown-jian ar flaen 'i sêt fel tysa rhyw lyngyr yn 'i ddu o, "pwy yw hi?"

"Dydd Gŵyl Dewi", ddechreuish ar yn hanas, "o'n i'n bryshio nôl o'r Albert ansar cinio at y blydi carpedi 'na pan welish i Penniman a Dai Corduroy ar stryd. "Day-off' hogia?" me fi.

"Hanner diwrnod", medda Dai sydd wedi dysgu Cymraeg yn well na lot o Gofis ia "Mynd i'r Clwb i ddathlu", medda Man Mownten Penniman. (Pan ma fo wedi gwyll-ti) da chi'n falch bod chi'n fêts hefo fo). "Moyn dod?".

"Fiw mi", me fi, "laddith y bos fi. Dwi ffwr rhy amal o beth cythral fel ma hi". Ond yn sydyn dyma rhyw ddiawl bach tu fewn i fi'n rhwla'n yn nhemtio fi. Os odd rhain yn ca'l "day-off" i ddath-lu Dewi Sant, pam na chawn i? "Di o'n lle da, hogia?"

"Le Mans - garanti am bnawn diddorol" medda Dai Corduroy.

"Ffonia i'r gwaith i ddeud fod yr hen bwl wedi dod drosta i".

Yn gwaelod City Road mae'r Le Mans. O'n i 'rioed wedi sylwi arno fo o'r blaen wrth fynd yn y bys i'r dre. Talu tua coron wrth drws ochor ia, a da chi mewn. Odd hi'n hannar tywyll yno hefo goleuada ffloreid fatha sy'n y Casinos lond lle. Blydi niwsans ydyn nhw hefyd-yn gneud i'r ddau ddaint gosod sydd gin i ar flaen yng ngheg edrach fel tasan nhw ddim yna o gwbl. Dim help o gwbl pan da chi'n trio pigo fodins.

"Neith hi sesh go iawn pnawn ma, hogia?" medda fi a swigo 'mheint o Meild lawr at 'i hannar mewn un gegiad. Ond chesh i ddim deud mwy nad odd 'na ryw fiwsig fatha miwsig Arabs yn llen-wi'r lle ac yn boddi siarad pawb. Aeth y gola i lawr a dath y sbotleit ar ryw fodan ym mhendraw'r stafall wedi'i gwisgo fatha rhwbath yn strêr o'r harfm.

"Arglwydd, Penniman!" me fi, "o'n i ddim yn gwbod ma lle fel hyn odd o!"

Gwenodd Penniman wên anfarth a rhoi pwniad i Dai Corduroy a winc arna fi. O'n i'n wastad wedi bwriadu mynd i weld un o'r rhain i'r dent yn Ffair Borth ond o'n i wedi ca'l gormod o lond bol i symud o'r pyb bob tro esh i.

Mi chwifiodd y fodan 'ma ddwy bluan ostrits fawr drwy'r awyr o'i blaen wrth symud i fyny ac i lawr y clwb. O dipyn i beth mi dynnodd bob cerpyn odd amdan-i a finna fannu'n llyncu 'mhwyri a gla-foerio bob yn ail. Fuo jest imi ffeintio pan symudodd hi o fewn modfeddi imi yn gwingo'n y modd mwya i'r miwsig. Mi 'steddodd hi ar lin Dai Corduroy, chwara hefo'i fwstas Pausho fo a rhoid 'i genhinen pedr o yn .....na i ddim deud lle. Diflannodd hi i'r twllwch yng nghornel y clwb ar ôl rhyw bum munud o giamocs fel hyn.

"Ffiw hogia!" me fi pan ddoth y gola'n ôl "pam na fysa chi'n warnio fê? O'n i ddim yn barod i weld fodan handi felna yn yn dangos 'i chamagara i gyd".

"Duw", medda Penniman, "mae Dai a fi wedi gweld "Naughty Nora" ddwsine o weithie, ondofe Dai?".

(parhâd) TUDALEN 19

CEFNOGWCH  
EIN HYSBYSEBWYR

## Dyddiadur Dyn Dwad

O DUDALEN 17

Tra odd yr hogia'n slochian yfad drwy'r pnaawn yn aros am yr ail sioc, o'n i'n sylwi ar y fodan fach ddél ma'n ista'n ddistaw fatha llygodan ar draws ffordd inni - neb hefo hi a neb yn deud gair wrthi: 'Mhen hir a hwyr cesh I ddigon o blwec cwrw i fynd draw ati a deud "sumai". Odd gino hi ddim llawer o fynadd siarad i ddechra ond pan ddechreuish i ar yn jôcs a'n fflyrtio, mi gnesodd hi drwyddi a buan 'roeddau ni'n fêts grêt. Belinda odd ei henw hi a fuo bron imi gael sioc ar yn nhin pan ddeudodd hi ma hi odd mêt gora "Naughty Nora" - yn byw hefo hi yn Grangetown ac yn mynd hefo hi i bob clwb i wneud yn siwr ei bod hi'n O.K.

"Mae Nora'n hen hogan grêt", medda hi, "a dwi isho gneud yn siwr nad ydi hen ddyinion bach budur a hen sglyfaethod mawr bachog yn mynd i'r afael hefo hi. Dydan ni ddim yn genod felna".

"Nadach, siwr", me fi, "ond ym .... wyt titha'n gneud y job ma hefyd, del-tynnu dy ddillad a ballu?"

"Gwaetha'r modd", medda Belinda, "does gin i ddim tsans c'al job. Felly dwi'n i helpu hi, dydw".

"Hei, fyswn i'n deud fod gin ti ffigyr neis iawn", medda finna'n ffresh reit yn yng nghwrw.

"O! Gronwy ti'n deud petha neis", medda hitha a 'mhwnio i hefo'i phen-elin yn yn occhor.

Daeth diwadd y pnaawn ac 'rodd hi'n piso bwrw tu allan. Mi sefodd y tri hog yn nrws y clwb yn disgwl iddi 'rafu. Pwy ddoth allan ar yn hola ni ond Nora a Belinda yn 'u cotia P.V.C.

"Ble chi'n mynd nawrte?" medda Penniman.

"Adra", medda Nora, "lle ti'n feddwl?"

"Mae hi'n stido bwrw" medda fi wedyn. "Ma'r fflat rownd y gongol".

Edrychodd y ddwy ar ei gilydd, giglo a deud "iawn". Gafaelodd Belinda yn y mraich i ac aeth Nora rhwng Dai a Penniman. Cerddodd y pump othonon hi i fyny City Road yn socian tuag adre.....

Ar y gair pwy grashiodd drwy ddrws yr Eli ar draws y stori ond Dai a Penniman eu hunain.

"Gron bach! 'Smo ni wedi gweld ti 'ddiar Dydd Gŵyl Dewi w. Bois, odd e'n smwtsio da'r striper hyn lan City Road. O'n nhw'n graplo erbyn inni gyrraedd kolfa tŷ ni a Duw a wŷr beth o'n nhw'n wneud pan ddisapiron' nhw nes mlân i rŵm A!".

"Taw, y cedor gwirion" medda fi.

"Ma'r hogia 'di clwad y cwblw. 'Does gin i mond diolch i chdi co am yn nenu o Howells y pnaawn hwnnw. Ffrogit 'sgin i mond diolch yn fawr i chditha am adal i fi aros hefo chi ers pan gesh i'r bŵt gan Mrs. Wilcox. Ond dwi' mynd i fyw hefo Belinda yn Grangetown wsnos nesa".

---

Arwyddair Neuadd Merched Aberdâr yw:  
GWELL ANGAU NA CHYWILYDD!